Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Redcroft**

**Cartref Preswyl Redcroft**
**1-3**
**Heol Alexandra**
**Bae Colwyn**
**LL29 7YB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/12/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Redcroft

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | ARG BUSINESS ASSOCIATES LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 14 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 3/11/2020 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau y caiff y cartref ei redeg yn llyfn. Cyfrifoldeb y rheolwr brwdfrydig ac uchel ei barch ymhlith y preswylwyr a'r staff, yw rhedeg y cartref o ddydd i ddydd. Darperir y gofal fel a bennir yng nghynlluniau personol y bobl. Darperir y gofal a'r cymorth gan dîm o staff tosturiol sy'n ymwybodol iawn o anghenion gofal y bobl. Caiff iechyd y bobl ei fonitro a gwneir atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol mewn modd amserol. Caiff amrywiaeth o weithgareddau eu cynnig sy'n darparu cyfleoedd ac ysgogiad.

Mae'r bobl yn cymryd rhan yn y gwaith o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Caiff gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a chânt hyfforddiant a goruchwyliaeth i'w cefnogi yn eu rôl. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cyfforddus, a gynhelir yn dda. Mae cyfarpar diogelwch a'r archwiliadau angenrheidiol ar waith i sicrhau y caiff iechyd a llesiant y bobl eu hyrwyddo.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth ar eu bywyd o ddydd i ddydd a chânt eu hannog gan y staff gofal i wneud dewisiadau ac aros mor annibynnol â phosibl. Caiff y bobl eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu bywydau a chânt eu trin ag urddas a pharch. Mae'r bobl yn elwa ar y

gweithgareddau a ddarperir ac o allu gweld eu ffrindiau a'u perthnasau yn rheolaidd; gallant fynegi eu safbwyntiau a'u barn. Mae'r cofnodion gofal yn dangos dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cynnwys hoff bethau, cas bethau a chefndiroedd pobl ond mae angen mwy o fanylion yn y cynlluniau personol. Mae rhai pobl yn dewis treulio amser yn cymdeithasu ag eraill yn yr ardaloedd cymunedol a gwnaethom siarad ag eraill a ddywedodd wrthym ei bod yn well ganddynt dreulio'u hamser yn breifat yn eu hystafelloedd, gan ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Gofelir am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal hyfforddedig. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod y staff gofal yn garedig ac yn ofalgar; dywedodd pedwar ohonynt wrthym eu bod yn hapus iawn yn Redcroft a'u bod yn teimlo'n ddiogel. Roedd anghenion gofal iechyd y bobl yn cael eu diwallu mewn modd amserol. Cedwir cofnodion o ganlyniadau iechyd y bobl a chaiff eu cynlluniau gofal eu hadolygu bob mis er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol bob amser. Mae trafodaethau â'r staff yn dangos eu bod yn ymwybodol iawn o anghenion y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Mae'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol â phobl ac roedd awyrgylch y gwasanaeth yn bwyllog ac yn hamddenol.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n groesawgar, yn gartrefol ac yn ddiogel. Caiff diogelwch yr amgylchedd ei fonitro a'i gynnal fel mater o arfer, a chymerir camau ar unwaith os caiff materion eu nodi. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd ag eitemau sy'n bwysig iddynt ac o werth sentimental. Mae'r coridorau a'r ystafelloedd yn glir o beryglon baglu felly gallai'r preswylwyr gerdded o gwmpas yn ddiogel.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae asesiadau risg cyfredol a phriodol ar waith i gefnogi anghenion gofal y bobl. Mae polisi diogelu ar waith, mae'r preswylwyr a'r staff yn gwybod sut i fynegi unrhyw bryderon os byddant yn codi. Roedd pawb yn barod i ategu nad oedd ganddynt unrhyw bryderon a'u bod yn hapus yn y cartref. Mae'r staff gofal wedi mynychu hyfforddiant diogelu ac yn dilyn polisïau sydd ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r prosesau recriwtio staff yn gadarn, yn ddiogel ac mae'r holl wiriadau angenrheidiol ar waith cyn cynnig cyflogaeth. Ceir polisi chwythu'r chwiban er mwyn i'r staff adrodd yn ddiogel ar arferion gwael. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac yn cael eu galluogi i adrodd ar ddigwyddiadau andwyol i'r rheolwyr. Mae gan y cartref bolisi a phroses gwynion cyffredinol hefyd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Caiff y gofal ei gynllunio yn ôl anghenion unigol. Mae'r cynlluniau personol yn darparu cyfarwyddyd sylfaenol i'r staff ei ddilyn er mwyn iddynt allu helpu gyda phob agwedd ar fyw o ddydd i ddydd. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth gyfredol o anghenion gofal y bobl; fodd bynnag, gellir eu datblygu ymhellach i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys yr unigolyn. Mae asesiadau risg ar waith, er enghraifft, rheoli achosion o gwympo a chaiff y ddogfennaeth a welsom ei hadolygu bob mis neu wrth i anghenion unigolion newid. Mae'r cartref wedi ymrestru yn y rhaglen 'Gwên am Byth' sy'n bwriadu gwella hylendid y geg a gofal y geg i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Mae yna bethau i'r bobl edrych ymlaen atynt. Caiff amrywiaeth o weithgareddau eu cynnig fel bingo, cantorion allanol, cwisiau a chlwb cyfnewid llyfrau. Mae'r staff yn trefnu diwrnodau

dod â'ch anifail anwes i'r gwaith a gwnaeth y bobl fwynhau ymweliad gan Chula y môrgrwban yn fawr iawn. Yn yr haf, nid oedd modd i'r preswylwyr fynd i lan y môr, felly daeth y staff â phrofiad glan y môr i'r cartref. Gwnaeth y preswylwyr wir fwynhau twba lwcus, rasio hwyaid, hufen iâ a phicnic. Gwelsom un preswylydd yn canu ac yn clapio i gerddoriaeth Nadoligaidd.

Caiff amrywiaeth o brydau a diodydd maethlon eu cynnig. Mae'r cogydd yn ymweld â'r bobl bob dydd er mwyn trafod y fwydlen ac mae'n cynnig dau bryd poeth gwahanol i ginio a dewis gwahanol o brydau poeth ac oer gyda'r nos. Gwelsom nad oedd amser cinio'n cael ei ruthro, ac roedd y prydau bwyd yn cael eu gweini i'r bobl mewn modd amserol. Gwelsom fod prydau bwyd cytbwys a blasus yn cael eu darparu. Darperir diodydd poeth gyda chacen neu fisgedi rhwng prydau. Gwelsom nad oedd un unigolyn yn hoffi'r pryd a oedd yn cael ei gynnig y diwrnod hwnnw, felly cynigiwyd pryd o'i ddewis iddo. Roedd y bobl yn canmol y bwyd a'r dewisiadau ar y fwydlen yn fawr iawn ac nid oedd ganddynt unrhyw gwynion.

Gofelir am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal sy'n ceisio cyngor proffesiynol yn brydlon pan fydd angen. Caiff y bobl sydd mewn perygl o golli pwysau a niwed pwyso eu monitro'n agos gan aelodau o staff a rhoddir gwybod am unrhyw bryderon i'r gweithiwr proffesiynol perthnasol. Gwelsom fod ymweliadau adolygu rheolaidd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel y meddyg, nyrsys ardal a gweithiwr cymdeithasol yn cael eu dogfennu yng nghynlluniau'r bobl. Dywedodd y bobl fod eu hystafell yn gyfforddus a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn y cartref. Gwnaeth pawb y gwnaethom siarad â nhw sylwadau ar ba mor gyfeillgar oedd y rheolwr a'r staff. Gwelsom hiwmor a sgwrsio braf wrth i'r rheolwr, y staff a'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ryngweithio â'i gilydd.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl. Gwelsom fod y staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd pe bai unigolyn yn wynebu risg. Mae systemau effeithiol ar waith i wneud yn siŵr bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Mae asesiadau risg unigol ar waith. Mae'r darparwr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu'r gwasanaeth yn gyfredol ac ar gael yn hawdd i'r holl staff.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael gofal mewn amgylchedd glân a chyfforddus. Gwelsom fod ystafelloedd y bobl yn cael eu personoli ag eitemau sydd o bwys iddynt, fel lluniau a phethau cofiadwy. Dywedodd y rheolwr wrthym y gall y bobl ddod â'u heitemau dodrefn llai eu hunain gyda nhw pan fyddant yn symud i mewn a gwelsom enghreifftiau o hyn. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn falch eu bod yn gallu personoli eu hystafelloedd gwely ac roeddent yn hoffi maint ac arddull eu hystafelloedd. Roedd y lolfa gymunedol a'r ardaloedd bwyta yn cynnwys digon o le cyfforddus i eistedd a lle i'r bobl gymdeithasu neu groesawu ymwelwyr. Gwelsom fod y cartref wedi'i addurno'n hyfryd ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Ceir gardd gyda lle eistedd sy'n arwain o'r heulfan, y dywedodd y bobl eu bod yn mwynhau ei defnyddio yn ystod tywydd braf. Caiff gwaith adnewyddu parhaus ei wneud ac mae ystafell wlyb newydd wedi'i gosod, gyda chynlluniau i uwchraddio'r ail ystafell ymolchi.

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd diogel, a gaiff ei gynnal yn dda. Mae'r cartref yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod, oherwydd wrth i ni gyrraedd, roedd y prif ddrws ar glo. Gwnaethom ganu cloch y drws er mwyn cael dod i mewn, gofynnwyd i ni am ddulliau adnabod ac i lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â'r gweithdrefnau diogelwch tân. Ymhlith y mesurau diogelwch tân eraill a gymerwyd roedd hyfforddi staff, cynnal driliau rheolaidd ac archwiliadau o gyfarpar. Mae gan bob unigolyn gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ac roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cynghori bod y rhain yn cael eu crynhoi i fformat un tudalen. Gwelsom gofnodion a wnaeth gadarnhau bod archwiliadau a gwaith gwasanaethu rheolaidd yn cael eu cynnal ar osodiadau trydanol, dyfeisiau nwy a thymereddau dŵr.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth. Roedd adolygiad o ansawdd y gofal wedi'i gynnal yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae adroddiad ar gael sy'n dangos y cafwyd safbwyntiau'r bobl sy'n byw yn y cartref. Roedd yr adroddiad yn dangos y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac roedd adroddiad o'r ymweliad diwethaf ar gael yn y cartref. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r rhain yn fanwl ac mae'r staff gofal yn deall sut i gyflawni eu gwaith, gan gynnwys diogelu, rheoli heintiau, cwynion a chwythu'r chwiban. Mae gan y cartref systemau ar waith i wirio, archwilio ac adolygu holl wasanaethau a gweithdrefnau'r cartref. Lle daw awgrymiadau, pryderon neu gwynion i law, eir i'r afael â'r rhain a chaiff mesurau eu cymryd i gywiro unrhyw faterion a nodwyd.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff sy'n cael eu hyfforddi a'u goruchwylio'n rheolaidd. Gwelsom fod y lefelau staff gofal yn dda ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfarfodydd goruchwylio gyda'r rheolwr ac ystyrir datblygiad proffesiynol fel rhan o'r cyfarfodydd hyn, gan nodi anghenion hyfforddiant os bydd hynny'n ofynnol. Mae'r rheolwr ar gael unrhyw bryd ac yn gweithredu polisi drws agored. Teimlodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu cefnogi ac roeddent yn mwynhau

gweithio yn y cartref yn fawr. Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant mewn codi a chario, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch a diogelwch tân.

Mae'r prosesau recriwtio staff yn ddiogel. Mae gan ffeiliau personél y staff ddogfennaeth berthnasol, gyda thystiolaeth fod gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Cynhelir gwaith fetio ar ffurf gwiriadau datgelu a gwahardd (DBS) a chael geirdaon boddhaol. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cwblhau cyn i'r aelod o staff ddechrau yn ei rôl. Cynhelir dulliau adnabod ffotograffig a thystiolaeth o hunaniaeth.

Mae'r darparwr yn buddsoddi yn y cartref yn barhaus. Cynhelir gwaith cynnal a chadw parhaus ac mae archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd yn nodi meysydd y mae angen sylw arnynt. Mae ystafell wlyb newydd wedi'i gosod ac mae cynlluniau ar waith i uwchraddio'r ail ystafell ymolchi. Mae gwaith yn cael ei gynnal ar ran o'r system wresogi ac mae'r darparwr yn buddsoddi yn yr eiddo.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant craidd cyfredol sy’n briodol i'r gwaith y disgwylir iddynt ei gyflawni. | Cyflawnwyd |
| 68 | Nid yw rheolwr y gwasanaeth yn meddu ar y cymhwyster priodol ac nid yw wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. | Cyflawnwyd |
| 36 | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr aelodau o staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n briodol. | Cyflawnwyd |
| 79 | Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi'r trefniadau priodol ar waith er mwyn cadw polisïau a gweithdrefnau'n gyfredol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/02/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi